

Cyflwyniad

	Capita ydym ni. Rydym yn cynnal asesiadau Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
	Mae asesiad yn helpu i'r DWP ddeall y math o gymorth sydd ei hangen arnoch.
	Rydym yn eich annog i ddod â chydymaith gyda chi i'ch asesiad. Gallant eich cefnogi a'ch helpu i egluro sut mae'ch cyflwr yn effeithio arnoch chi.
 	Os ydych chi'n cael asesiad ffôn neu asesiad fideo, bydd eich cydymaith yn cael eu hychwanegu at yr alwad.
 	Rhai enghreifftiau o bwy allwch ddod gyda chi yw: • Aelod o'r teulu neu ffrind • Eich gweithiwr allweddol • Eich gweithiwr cymdeithasol • Eich nyrs cymdeithasol

Dyma ychydig o wybodaeth i'w rannu gyda'ch cydymaith cyn eich asesiad

	Gall eich cydymaith gyfrannu at yr asesiad ond ni ddylent siarad ar eich rhan.
	Ar gychwyn yr asesiad, bydd yr arbenigwr swyddogaethol yn gofyn am eich caniatâd i gael eich cydymaith yno.
	Bydd yr arbenigwr swyddogaethol yn cofnodi yn yr adroddiad bod eich cydymaith wedi cymryd rhan yn yr asesiad.
	Os yw'r arbenigwr swyddogaethol yn gofyn i chi wneud rhai symudiadau corfforol, ni all eich cydymaith eich cynorthwyo.
	Gall eich cydymaith gymryd nodiadau yn ystod yr asesiad. Nid oes angen i'r nodiadau gael eu rhannu â Capita na'r DWP.



Cyn belled â'ch bod yn cytuno, gall eich cydymaith ofyn am gael siarad â'r arbenigwr swyddogaethol ar wahân ar ddiwedd yr asesiad.



Gall yr arbenigwr swyddogaethol ofyn i'ch cydymaith adael yr asesiad os ydynt yn tarfu.

Nid yw hyn yn debygol o ddigwydd.

Sut i gysylltu â ni os oes angen cymorth arnoch

	Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich asesiad, cysylltwch â ni.
	Rydym ar agor o 8am i 8pm, dydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 5pm dydd Sadwrn.
	Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan. Bydd rhaid iddynt wybod eich Rhif Yswiriant Gwladol.
	Ffoniwch ni am ddim ar 0800 072 0221
	Os na allwch chi glywed neu siarad ar y ffôn, gallwch ddefnyddio NGT neu Relay UK: 18001 yna 0800 072 0221.
	Os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfnewid Fideo. Teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd: https://haas.capita.co.uk/cy/cysylltwch-ni

	Sgrolwch i lawr i 'Gwasanaeth Cyfnewid Fideo' a chliciwch ar y ddolen.
	Gallwch ysgrifennu atom hefyd: Capita PO Box 393 Darlington DL1 9UL
	Neu e-bostiwch ni: contactus@capita-pip.co.uk

Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd, a ddarparwyd gan Capita ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau